❖ Proxima Centauri

…y seren a welsent yn y dwyrain a aeth o'u blaen hwy…
(Mathew 2:9) (*BWM*)

Myn y gwybodusion mai'r seren agosaf at ein daaer ni yw'r Proxima Centauri. A'r pellter rhyngom, meddir, yw 25 o filiynau o filiynau o filltiroedd. Yn hytrach nag ymgodymu ag anferthedd y ffasiwn rif – 25,000,000,000,000 – dewisodd y seryddwyr drosi'r milltiroedd i flynyddoedd, sy'n golygu y cymer bedair blynedd a hanner i oleuni'r seren gyrraedd ein daear ni. Ffaith ysigol arall!

Felly, pe gwelem ni'r Proxima Centauri heno, nid ei gweld fel y *mae* y buasem, ond ei gweld fel yr *oedd* bedair blynedd a hanner yn ôl. Mae hi ers hynny wedi mynd ei blaen.

Dyna Iesu Bethlehem. Fel y seren, y mae yntau'n symud o flaen yr oes bob gafael. Ni allwn ni fyth ei oddiweddyd, llai fyth ei basio… dim ond ei lesg-ganlyn:

Os gwg, os llid, mi af i'w gôl,
Mae'r wawr yn cerdded ar ei ôl.

Robin Williams

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com